



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University

POLISI CAFFAEL CYNALIADWY

Prifysgol Abertawe
Cyfrifoldeb Corfforaethol
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP
Ffôn: 01792 602859
Ffacs: 01792 295820

Rhif y Diwygiad: 3

Dyddiad y Newid Diwethaf: 12/10/2018

Polisi Caffael Cynaliadwy

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod gan ei phenderfyniadau prynu oblygiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac mae'n gweld hyn fel cyfle i brynu nwyddau a gwasanaethau mewn modd cyfrifol a chynaliadwy. Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu'r ymrwymïadau a nodir ym Mholisi Cynaliadwyedd y Brifysgol, a'i nod yw ymgorffori agweddau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol ym mhob rhan o'r broses brynu.

Mae'r ddogfen hon yn egluro ymagwedd y Brifysgol at gaffael cynaliadwy ac mae'n cynnig arweiniad i brynwyr mewnol ac i ddarpar gyflenwyr ac isgontractwyr a'n rhai presennol. Mae nodiadau arweiniol ar gael yn ATODIAD A.

Mae Prifysgol Abertawe'n annog ei chyflenwyr a'i hisgontractwyr i reoli effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol eu gweithrediadau busnes.

Lle bynnag y bo modd, dylai cyflenwyr ac isgontractwyr ddiwygio eu harferion busnes i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y ddogfen hon.

I'n helpu i gyflawni ein hymrwymïadau, byddwn yn:

- Adolygu'r angen am brynu a lleihau ein defnydd o nwyddau, gan ddiwallu anghenion defnyddwyr ar yr un pryd.
- Ystyried costau ac effeithiau oes gyfan cynhyrchion a gwasanaethau wrth wneud penderfyniadau prynu.
- Sicrhau bod yr holl gontractau a thendrau caffael perthnasol yn cynnwys manylebau cynaliadwyedd sy'n briodol i'r cynnyrch neu'r gwasanaeth sy'n cael ei gaffael (ceir manylebau yn Atodiad A).
- Gwerthuso perfformiad cynaliadwyedd/amgylcheddol cyflenwyr a chontractwyr a'u hannog i gynnal eu gweithrediadau mewn modd sy'n llesol i'r amgylchedd.
- Prynu cynhyrchion moesegol sydd wedi cael eu masnachu'n deg, gan osgoi cam-fanteisio ar lafur a chefnogi prynu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n darparu ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Darparu ymwybyddiaeth a hyfforddiant i annog staff sy'n ymwneud â phrynu i fabwysiadu'r Polisi Caffael Cynaliadwy.
- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ym maes caffael.

| CYF | CYFFREDINOL (MEINI PRAWF CYFFREDINOL) | Gorfodol | Argymhelliad | Dolen i Ofyniad a Pholisïau Cyfreithiol |
|-----|---|----------|--------------|---|
| 1 | Adolygu'r angen i brynu'r cynnyrch | x | | |
| 2 | Osgoi prynu gwasanaethau a chynhyrchion sy'n debygol o beryglu iechyd | x | | |
| 3 | Osgoi prynu cynhyrchion sy'n gallu achosi niwed sylweddol i'r amgylchedd (e.e. drwy brynu cynhyrchion nad ydynt yn fioddiraddadwy neu sy'n cynnwys nwyon CFC) | x | | |
| 4 | Ystyried effeithlonrwydd y cynnyrch a/neu'r gwasanaethau a'r adnoddau a ddefnyddir ganddynt a fydd yn ychwanegu at y gost weithredu. | x | | |
| 5 | Ystyried a fydd modd ailgylchu'r cynnyrch ar ddiwedd ei oes. | x | | |
| 6 | Ystyried y ganran o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a ddefnyddiwyd yn y cynnyrch. | x | | |
| 7 | Osgoi cynhyrchion â gormod o becynnu. Os nad oes modd osgoi pecynnu, dylid chwilio am - Cynhyrchion wedi'u pecynnu mewn deunyddiau wedi'u hailgylchu. - Cynhyrchion wedi'u pecynnu mewn deunyddiau y gellir eu haildefnyddio neu eu hailgylchu. | | x | |
| 8 | Os nad oes gwahaniaeth mawr rhwng cost eitemau, dewis y rhai y defnyddiwyd cyfran uchel o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu wrth eu gweithgynhyrchu. | x | | |
| 9 | Prynu cynhyrchion neu wasanaethau nad oes rhaid eu cludo'n bell, ac na fydd angen cynnal a chadw parhaus arnynt ac na fyddant yn defnyddio adnoddau. | x | | |
| 10 | Dewis cyflenwyr/is-gontractwyr sy'n cefnogi'r Safonau Llafur Rhyngwladol a chodau ymddygiad. | x | | |
| 11 | Hawl gan staff contractwyr i fod yn aelodau o undeb llafur | x | | http://www.ilo.org/global/topics/freedom-of-association-and-the-right-to-collective-bargaining/lang-en/index.htm |
| 12 | Rhaid bod Polisi Amgylcheddol gan y contractwyr/is-gontractwyr | x | | |
| 13 | Dylai'r contractwyr/is-gontractwyr neu gyflenwyr mawr ystyried dulliau teithio cynaliadwy wrth deithio i gampysau'r Brifysgol ac oddi yno o ddydd i ddydd. | | x | |
| CYF | LLEIHAU GWASTRAFF (MEINI PRAWF CYFFREDINOL) | Gorfodol | Argymhelliad | Dolen i Ofyniad a Pholisïau Cyfreithiol |
| 14 | Rhaid i'n holl weithgynhyrchwyr, cyflenwyr ac is-gontractwyr lynu wrth yr hierarchaeth gwastraff (arbed, aildefnyddio, ailgylchu, adfer, gwaredu) ar gyfer pecynnu. | X | | |
| 15 | Dylid dosbarthu a pheycynnu nwyddau fel swmpgyflenwad yn hytrach na fesul uned sengl. | | x | |
| 16 | Gofyn i nwyddau gael eu dosbarthu y tu allan i'r oriau prysur ar y ffyrdd. | | x | |
| 17 | Dylai'r cyflenwr aildefnyddio deunyddiau pecynnu a chynhyrchion a ddefnyddiwyd | x | | http://cedrec.com/environmental/full_text/regulation/si/2436/7878_f.htm |
| 18 | Dylid cludo nwyddau mewn cynwysyddion y gellir eu haildefnyddio | | x | |
| 19 | Gweithredu System Rheoli Amgylcheddol (yn berthnasol i gontractau Gwasanaeth a Gwaith yn unig) | | x | |

| MEINI PRAWF AR GYFER EITEMAU A CHONTRACTWYR | | | | |
|---|---|----------|-------------|---|
| CYF | DILLAD | Gorfodol | Argymheliad | Dolen i Ofyniad a Pholisïau Cyfreithiol |
| 20 | Fel rhan o'r broses dendro, gofynnir cyfres o gwestiynau i wirio cydymffurfiaeth â meini prawf moesegol y Brifysgol. Dyma'r cwestiynau: | x | | www.workersrights.org/ |
| 21 | 1. Ydy cyflenwyr dillad yn cydymffurfio â'r Safonau Llafur Rhyngwladol? | x | | |
| 22 | 2. Dylai'r cyflenwr dillad ddangos sut mae'n cydymffurfio â'r Safonau Llafur Rhyngwladol. | | x | |
| 23 | 3. Rhaid i'r cyflenwr ddarparu rhestr lawn o leoliadau ffatrioedd ei gontractwyr a'i is-gontractwyr ar gais, i alluogi'r Brifysgol i gydymffurfio â Chonsortïwm Hawliau'r Gweithwyr. | x | | |
| 24 | 4. Os nad yw lleoliadau'r ffatrioedd ar gael, ydy'r cyflenwr yn fodlon gweithio gyda'r Brifysgol i gasglu'r wybodaeth hon? | x | | |
| 25 | 5. A ddefnyddiwyd cotwm Masnach Deg ac organig wrth weithgynhyrchu'r dillad, lle bynnag y bo'n berthnasol? | | x | |
| CYF | DIODYDD | Gorfodol | Argymheliad | Dolen i Ofyniad a Pholisïau Cyfreithiol |
| 26 | Rhaid bod y diodydd wedi derbyn ardystiad Masnach Deg. | x | | http://www.swansea.ac.uk/sustainability/fairtrade,%20ethical%20procurement/ |
| 27 | Dylai coffi a the fod ag ardystiad naill ai Masnach Deg neu Gynghrair y Goedwig Law. | | x | |
| CYF | BWYD | Gorfodol | Argymheliad | Dolen i Ofyniad a Pholisïau Cyfreithiol |
| 28 | Dylai meini prawf prynu bwyd lynu wrth Bolisi Arlwyio Cynaliadwy'r Brifysgol. | | x | http://www.swansea.ac.uk/media/Sus%20Catering%20Policy.pdf |
| CYF | GLANHAU | Gorfodol | Argymheliad | Dolen i Ofyniad a Pholisïau Cyfreithiol |
| 29 | Dylid defnyddio a chaffael cemegau glanhau sy'n ystyriol o'r amgylchedd â labeli sy'n cynnwys gwybodaeth glir. | | x | https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/341460/GOV_UK_GBS_clean_products_and_services.pdf |
| 30 | Rhaid i unrhyw staff a gyflenwir gan asiantaeth allanol neu a gyflogir ar sail contract dderbyn hyfforddiant trin cemegau a COSHH. | x | | |
| CYF | ELECTRONEG | Gorfodol | Argymheliad | Dolen i Ofyniad a Pholisïau Cyfreithiol |
| 31 | Dylai fod gradd o leiaf A+ am ynni gan yr holl nwyddau gwyn | | x | |
| 32 | Rhaid bod gradd A++ am Effeithlonrwydd Ynni gan bob rhewgyst, oergell-rhewgell a rhewgell unionsyth. Rhaid bod gradd A+ am effeithlonrwydd ynni gan oergelloedd. | | x | |
| 33 | Dylai fod label Ynni Dosbarth A ar gyfer Systemau Aerdymheru Cartref gan bob uned aerdymheru o dan 12kW. | | x | |
| 34 | Ni chaniateir defnyddio nwyon CFC fel rhewyddion. Ni chaniateir defnyddio hydro cloroffliworocarbonau (HFCs) crai fel rhewyddion. Ni ddylid defnyddio Hydroffliworocarbonau oni bai nad oes dulliau eraill ar gael sy'n ddiogel, yn ymarferol yn dechnegol, yn gost-effeithiol ac yn fwy llesol i'r amgylchedd. | x | | http://cedrec.com/environmental/summary/regulation/si/21674/index_s.htm |
| CYF | DEUNYDDIAU YSGRIFENNU | Gorfodol | Argymheliad | Dolen i Ofyniad a Pholisïau Cyfreithiol |

| | | | | |
|------------|---|-----------------|---------------------|---|
| 35 | Prynu papur a weithgynhrychwyd gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu gan gynnwys o leiaf 80% o wastraff ar ôl defnyddio. | | x | |
| 36 | Ni ddylid prynu papur nad yw'n cynnwys deunyddiau wedi'u hailgylchu oni bai fod y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd wedi ardystio ei fod yn dod o ffynonellau cynaliadwy | | x | |
| 37 | Rhaid i'r cyflenwr gasglu'r paledau a ddefnyddir i ddisbarthu'r papur y tro nesaf mae'n dosbarthu nwyddau i'r brifysgol a'u hailgylchu/hailddefnyddio. | | x | |
| 38 | Rhaid bod 100% o gynnwys tywelion papur (er enghraifft, yn y gegin a phapur toiled) wedi'i ailgylchu. | | x | |
| 39 | Amlenni safonol: Rhaid eu bod wedi'u gwneud yn gyfan gwbl o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. | | x | |
| CYF | CELFI | Gorfodol | Argymhelliad | Dolen i Ofyniad a Pholisiau Cyfreithiol |
| 40 | Rhaid bod modd dadosod pob celfcyn sy'n cael ei gaffael i hwyluso aildddefnyddio, adnewyddu, atgyweirio ac, yn y pen draw, ailgylchu, naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl. | | x | https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/341461/Furniture_GBS_1407.pdf |
| 41 | Lle defnyddir gludyddion a glud, ni ddylai eu cynnwys VOC fod dros 10% ar sail pwysau. | | x | |
| 42 | Dylai'r sawl sy'n tendro nodi'r ganran (ar sail pwysau) o gynnwys wedi'i ailgylchu a/neu gydrannau wedi'u hadnewyddu a'u hailddefnyddio mewn deunyddiau yn seiliedig ar bren, plastigion a/neu fetelau yn y celfcyn terfynol. | | x | |
| 43 | Dylai celfi fod wedi'u hardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd | | x | |
| CYF | DEUNYDDIAU HYRWYDDO/MARCHNATA | Gorfodol | Argymhelliad | Dolen i Ofyniad a Pholisiau Cyfreithiol |
| 44 | Dylai'r holl roddion hyrwyddo fod wedi'u cynhyrchu o ffynonellau cynaliadwy, gan ystyried materion megis defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a nwyddau a gynhyrchir yn lleol. | | x | |
| CYF | CERBYDAU | Gorfodol | Argymhelliad | Dolen i Ofyniad a Pholisiau Cyfreithiol |
| 45 | Gallu i ddefnyddio tanwydd o ffynonellau adnewyddadwy (er enghraifft, biodanwyddau, trydan neu hydrogen adnewyddadwy). | | x | |
| 46 | Ni ddylai allyriadau CO2 cerbyd a logir fod dros 130g CO2e/km. | | x | |
| 47 | Ni ddylai allyriadau ar gyfartaledd cerbydlu (faniau newydd) fod dros 175g CO2/km. | | x | |
| CYF | ADEILADAU NEWYDD A PHROSIECTAU ADNEWYDDU MAWR | Gorfodol | Argymhelliad | Dolen i Ofyniad a Pholisiau Cyfreithiol |
| 48 | Cyflenwi cynhyrchion â chanran uchel o ddr wedi'i ailgylchu. | x | | |
| 49 | Rhaid i'r contractwyr/is-contractwyr uchafu cyfraddau aildddefnyddio, ailgylchu ac adennill gwastraff o adeiladu, dymchwel a chloddio. | x | | |
| 50 | Rhaid glynu wrth safonau Dull Asesu Amgylcheddol BRE (BREEAM) neu safonau cyfatebol ar gyfer pob: prosiect adeiladu newydd i gyflawni o leiaf gradd 'Rhagorol'; prosiect adnewyddu mawr i gyflawni o leiaf gradd 'Da lawn'. Rhaid defnyddio dull asesiad amgylcheddol priodol megis BREEAM neu safon gyfatebol (e.e. CEEQUAL, DREAM ayb.) sy'n briodol i faint, natur ac effaith y prosiect ar gyfer pob prosiect, gan ddefnyddio Llyfr Gwyrdd y Trysorlys neu arweiniad priodol arall a ddarperir gan y llywodraeth. | | X | https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/339908/GOV.UK_GBS_for_construction.pdf |
| 51 | Pren: Ni ddylid caffael pren nad yw'n cyflawni safonau'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) neu'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC) neu'r rhagori ar y rhain neu oni bai ei fod o goedwigoedd yr ardystiwyd eu bod yn gweithio i gyflawni'r safonau. | x | | |

| | | | | |
|----|---|---|--|---|
| 52 | Cawodydd: Cyfraddau lifo 6 litr y funud ar gyfer cawodydd dŵr- effeithlon. | x | | http://www.aecb.net/wp-content/uploads/2013/02/1503_AECB_Water_Vol_1_V3.pdf |
| 53 | Tapiau ystafell ymolchi a chwistrellau awtomatig: Cyfraddau llifo llai na 4 litr y funud naill ai drwy fecanwaith cau awtomatig, troi/lifer neu dapiau chwistrellu | x | | |
| 54 | Tapiau cegin: Cyfraddau llifo o 5 litr y funud (heb fod yn llai na 5 litr y funud) naill drwy fecanwaith cau awtomatig, troi/lifer neu dapiau chwistrellu. Nid yw cyfraddau llifo o 4 litr y funud yn cael eu hargymell mewn ceginau. | | | https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/339916/GOV.UK_GBS_for_taps_showers_toilets.pdf |
| 55 | Toiledau: Uned fflysio deuol sy'n rhyddhau <4.5 litr gyda phob fflysh llawn: 4 / 2.6 litr gyda fflysh isel (neu lai, rhaid i system fflysio deuol gydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Gosodiadau Dŵr) y DU. | x | | |
| 56 | Wrinalau (rheolyddion wrinalau): Prynu wrinalau ag unedau rheoli annatod sy'n lleihau defnydd o ddŵr drwy gydol oes yr ased: Wrinalau di-ddŵr (unedau gwactod aer â rheolyddion aroglau neu ddeunyddiau bioddiraddadwy. Dim cydrannau cemegol), neu fflysh 1.5 litr/synhwyrdd defnyddiwr sy'n fflysio'n awtomatig ar ôl <10 litr/awr. Penderfynir ar y system fflysio ar sail niferoedd defnyddwyr. Dylai elfennau nad ydynt yn rhan o'r system fflysio fodloni meini prawf Technoleg Dŵr y Cynllun Lwfans Cyfalaf Estynedig (ECA), | x | | http://www.aecb.net/wp-content/uploads/2013/02/1503_AECB_Water_Vol_1_V3.pdf |
| 57 | Goleuadau: Dylai'r holl oleuadau newydd fod yn rhai LED lle bynnag y bo'n ymarferol. | x | | |